Beibl i Blant
yn cyflwyno

Y dynion oedd yn gwrthod plygu

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Jonathan Hay

addaswyd gan: Mary-Anne S.

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Dyma'r brenin Nebwchadnesar yn gwneud delw aur enfawr. Mae'n debyg fod y brenin wedi anghofio'r freuddwyd gafodd e gan Dduw yn dweud y byddai ei deyrnas aur yn dod i ben.



Falla ei fod yn
meddwl na fyddai
Gair Duw yn dod
yn wir os byddai'n
adeiladu
delw aur.



Dyma un o swyddogion y brenin yn darllen y gorchymyn i bawb: ...

... "... rhaid i chi blygu i lawr ac addoli'r ddelw aur ... bydd pwy bynnag sy'n gwrthod plygu ac addoli'r ddelw aur yn cael eu taflu ar unwaith i mewn i ffwrnais o dân."

Fe wnaeth pawb ufuddhau i'r brenin - pawb ond tri dyn. Iddewon o'r enw Shadrach, Meshach, ac Abednego, ffrindiau Daniel.



Mae'n debyg fod Daniel yn absennol, neu fe fyddai e hefyd wedi gwrthod addoli delw o waith llaw pobl.



Roedd dynion doeth y brenin yn genfigennus o Daniel a'i ffrindiau achos bod y brenin yn eu hoffi. Felly dyma nhw'n dweud, "Mae'r dynion gafodd eu penodi yn ...

... rheolwyr talaith Babilon gynnoch chi - Shadrach, Meshach, ac Abednego, yn gwrthod ufuddhau i chi. Dydyn nhw ddim yn addoli eich duwiau chi, ac maen nhw'n gwrthod addoli'r ddelw aur dych chi wedi'i chodi."

Dyma Nebwchadnesar yn gwylltio'n lân. Dyma fe'n eu rhybuddio nhw, "Os byddwch chi'n gwrthod addoli, cewch chi'ch taflu ar unwaith i ffwrnais o dân. Pa dduw sy'n mynd i'ch achub chi o'm gafael i?"

Roedd y brenin yn gwneud camgymeriad mawr. Roedd e'n herio'r Duw byw. Roedd y tri Iddew yn gwybod bod addoli delw yn erbyn cyfraith Duw.



Dyma nhw'n gwrthod plygu.
Roedden nhw'n trystio Duw, a doedd ganddyn nhw ddim ofn y brenin.

Roedd gan y tri dyn ateb ar gyfer y brenin. Dyma nhw'n dweud, "Bydd y Duw dŷn ni'n ei addoli yn gallu'n hachub ni o'r ffwrnais dân.



Ond hyd yn oed os ydy e ddim yn gwneud hynny, does dim gwahaniaeth. Does gynnon ni ddim bwriad addoli eich duwiau chi, na'r ddelw aur dych chi wedi'i chodi."

Roedd Nebwchadnesar yn lloerig! Rhoddodd orchymyn fod y ffwrnais i gael ei thanio saith gwaith poethach nag arfer. Ond roedd y dynion yn dal i wrthod plygu.

Cafodd Shadrach, Meshach, ac Abednego eu clymu'n dynn gan

ddynion cryf y brenin, a'u taflu i ganol y tân yn y ffwrnais.

Roedd y ffwrnais mor
boeth fel bod y milwyr
oedd yn eu taflu
i'r tân yn cael
eu llosgi.

Arhosodd y brenin mewn man diogel i weld beth oedd yn digwydd. Gwelodd tri dyn yn cael eu taflu i ganol y ffwrnais. Ond gwelodd fwy na hynny!

Edrychodd y brenin Nebwchadnesar mewn rhyfeddod!
"Onid tri dyn wnaethon ni eu rhwymo a'u taflu i'r tân?" gofynnodd i'w ddynion.
"Ie, yn sicr," medden nhw.



“Ond edrychwch!”
gwaeddodd y brenin.
“Dw i’n gweld
pedwar o bobl
yn cerdded
yn rhydd
yng
nghanol
y tân.

A dŷn nhw ddim wedi cael unrhyw niwed! Ac mae'r pedwerydd yn edrych fel Mab Duw!"



Aeth Nebwchadnesar mor agos ag y gallai at ddrws y ffwrnais, a gweiddi, "Shadrach, Meshach, and Abednego, gweision y Duw Goruchaf.

Dewch allan!"
Cerddodd Shadrach,
Meshach, ac
Abednego allan
o'r tân.

Dyma bawb yn casglu o gwmpas y tri Iddew. Doedd y tân ddim wedi'u llosgi nhw o gwbl, dim un blewyn. Doedd dim niwed i'w dillad. Doedd dim hyd yn oed arogl llosgi arnyn nhw!

Pan sylweddolodd y brenin beth oedd wedi digwydd, fe wnaeth rywbeth doeth iawn.

Dechreuodd weddio, a dywedodd, "Moliant i Dduw Shadrach, Meshach ac Abednego! Anfonodd angel i achub ei weision oedd yn trystio ynddo."

Y dynion oedd yn gwrthod plygu

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Daniel 3

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16